# Annwyl Twm

Ar achlysur dy benblwydd yn ddeuddeg oed, Gwener, Mai 18fed, 2007.

Cerdded mynydd, mynd i feicio,
Hedfan yr awyren fach,
Chwarae ffwtbol, mynd i'r aelwyd,
Dyma sylfaen bywyd iach!

Camau gwirion hogiau heriog,
Rhaid it weithiau dal dy dir,
Ond wrth geisio llwybr cymod,
Daw dy drywydd eto'n glir.

Os wyt eisiau dilyn *Thierry*,
Rheda rownd y bloc bob dydd!
Mae 'da ti'r ddawn, a daw cyflymder,
Gobaith mawr i Gymru fydd!

Arholiadau dônt 'da'r gwcw,
Gwell it adolygu'n dryw,
Piano, sax a *faire les devoirs*,
Dyfal donc yw'r ateb, clyw!
O d'ymroddiad, daw doethineb,
Dysgu gorau, dysgu byw.

Gofid ddaw o golli tymer,
Mil gwaith gwell yw fod yn glên,
Cyfarch pawb ag wyneb siriol,
Cofia'r grym sy'n glwm mewn gwên.

Bydd yn hawddgar, cei dy garu,
Bydd ystyrlon, cei dy barchu.
Bydd yn addfwyn, cei dynerwch,
Cyfra' i ddeg, a chei ddedwyddwch.
Bydd yn wir a glân dy galon -
Cofia hyn, a byddi fodlon.